




Llongyfarchiadau Dr Elin

Cael Hwyl yn Ystod y Clo

Dr Elin Jones

Peth hyfryd iawn yw gwireddu breuddwyd oes, a ches i gyfle i wneud hynny yn ystod y cyfnod clo. Cefais lonydd i fwrw ati i ysgrifennu'r llyfr ar hanes Cymru, 'Hanes yn y Tir', oedd gen i yn yr arfaeth ers blynyddoedd. Cefais symbyliad i ddechrau ar y gwaith pan sylweddolais nad oedd dim un llyfr ar y farchnad fyddai'n cwrdd ag awydd fy nghyfnither Josephine (9 oed) am lyfr ar hanes Cymru *i gyd* – gyda draig ar y clawr a sylw haeddiannol i fenywod ar ei dudalennau.

Roeddwn i'n ddigon ffodus i gael cyfle i ofyn i'r Archdderwydd - a chyhoeddwr - Myrddin ap Dafydd a fyddai diddordeb gan Wasg Carreg Gwalch mewn cyhoeddi'r llyfr. Roedd ei frwdfrydedd dros y syniad yn galonogol - ac yn hwb arall ymlaen, wrth gwrs.

Felly, roedd yn rhaid rhoi'r gorau i siarad, agor y cluniadur a dechrau arni. Roedd y cynllun gen i ers blynyddoedd – dilyn hanes Cymru trwy edrych ar ein cynefin, y tirwedd o'n cwmpas a ffurfiwyd gan ein hanes.

Campwaith y diweddar Dr John Davies fyddai sail y llyfr, fel bod modd i'r darllenydd (neu riant y darllenydd) droi at ei *Hanes Cymru* ef i gael mwy o fanylion. Mae sawl llyfr da arall ar hanes Cymru hefyd, wrth gwrs, ond mawr yw – ac oedd – fy mharch tuag at John, a'i allu i gwmpasu cymaint o wybodaeth o fewn clawr un llyfr. Roedd y llyfr ei hun wrth fy mhenelin wrth i fi ysgrifennu, ac ynddo cefais ateb i bob cwestiwn oedd gen i, beth bynnag.

Wrth weithio ar y cwricwlwm hanes, ac wrth reoleiddio'r cymwysterau yn y pwnc, sylwais i mor bytiog oedd yr hanes a astudir mewn ysgolion. Er bod ymgais i gryfhau ymwybyddiaeth plant o dreigl amser, a'r gwahaniaethau sydd rhwng cyfnodau hanesyddol, trwy gyflwyno astudiaethau o un thema dros ystod hir o amser, dyw hynny ddim yn rhoi darlun cyflawn iddynt o unrhyw gyfnod.



Yr Awdur



Roeddwn yn ymwybodol iawn hefyd fod tuedd i ffocysu ar rai pynciau mewn hanes a bod rhai eraill yn cael eu hanghofio, er eu bod llawn mor bwysig. Dechreuwyd datblygu'r cwricwlwm cenedlaethol ddeugain mlynedd yn ôl, a bu'n rhaid brwydro'n galed i gael maes llafur gwahanol i Gymru mewn rhai pynciau – gan gynnwys hanes. Mae blaenoriaethau hanes Lloegr wedi cael llawer o ddylanwad ar gynnwys y cwricwlwm hanes yng Nghymru, serch hynny. Mae diwylliant poblogaidd hefyd yn ein hatgoffa'n gyson am bwysigrwydd y cestyll, agweddau ar hanes y Tuduriaid, y chwyldro diwydiannol ac, wrth gwrs, yr Ail Ryfel Byd.

Anodd iawn felly yw rhoi sylw haeddiannol i gyfnod a digwyddiadau sy'n wahanol eu pwysigrwydd yng Nghymru. Mae rhai o'r rhain yn allweddol i hanes Cymru, megis y cyfnod rhwng diwedd yr Ymerodraeth Rufeinig a dyfodiad y Normaniaid. Dyma "Oes y Saint" i ni yng Nghymru, ac mae llawer o'n chwedlau yn ogystal ag enwau'n trefi a'n pentrefi yn dangos ei bwysigrwydd yn ein hanes. Dyma'r cyfnod hefyd pan ddatblygodd ein hiaith a'r hen deyrnasoedd sydd wedi rhoi eu henwau i rannau o Gymru hyd heddiw. A dyma'r cyfnod pan godwyd y Clawdd sy'n dal yn ffin rhyngom ni a Lloegr. Dyma'r cyfnod pan ffurfiwyd Cymru fel gwlad.



Tai teras Tredegar Newydd

A beth am Glyn Dŵr? Un o blith nifer o wrthryfelwyr y 15fed ganrif ydyw yn hanes Lloegr - ond arwr oesol a chynllunydd Cymru annibynnol yw Glyn Dŵr i ni sy'n byw'r ochr hon i



**Swyddfa Cymdeithas
Feddygol Gweithwyr
Tredegar: man cychwyn
syniadau Aneurin Bevan
am wasanaeth iechyd
gwladol.**

Glawdd Offa. A datblygiad Methodistiaeth ac addysg yn y 18fed ganrif? Mae angen gwybod am y daeargryn crefyddol, y diwygiadau fu'n teithio fel tân gwyllt trwy Gymru, i ddeall arwyddocâd y capeli anferth sy'n dadfeilio ymhob tref a phentref heddiw.

Ond ar ben hynny, roeddwn yn aml yn gweld plant yn gwneud gwaith arbennig o dda ar eu milltir sgwâr, neu ar ryw agwedd o hanes lleol, ond heb gael unrhyw gyd-destun ehangach iddo. Mae'r cwricwlwm newydd sy'n cael ei gyflwyno nawr yn rhoi sylw mawr i gynefin y disgyblion, a da o beth yw hynny. Ond beth am roi'r cynefin mewn cyd-destun Cymru gyfan?

Felly, clatsh bant oedd hi am fisoedd. Anfon drafft o'r penodau cyntaf draw at Josephine a chael sêl ei bendith arnynt - a chynllun ar gyfer y clawr hefyd. Ond roedd y cymhorthdal a dderbyniodd y wasg gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am banel o athrawon profiadol i arolygu'r gwaith, ac am dreialu penodau o'r llyfr mewn

ysgolion. Rhaid oedd i bob un ohonyn nhw fod yn fodlon: nid oedd geirda Josephine yn ddigon, yn anffodus.



**Tai teras solet, gyda thoeon llechi,
yn y Drennewydd, Rhymni**

Ond wedi cryn ysgrifennu ac ail-ysgrifennu ac ail-ail-ysgrifennu, roedd testun derbyniol gennym. Ac yn y cyfamser, tra 'mod i wedi bod yn ffusto allweddau'r cluniadur, roedd llawer o bobl eraill wedi bod yn gweithio ar y llyfr hefyd - arlunydd, dylunydd, ymchwilydd lluniau, golygyddion a llawer o rai eraill, rwy'n siŵr. Efallai taw fi sydd pia'r rhan fwyaf o'r geiriau yn y llyfr, ond nid fi sy'n gyfrifol am y golwg hyfryd sydd arno, y papur da, y lluniau lliwgar ac effeithiol, y diwyg atyniadol, yr indecs cywir a chynhwysfawr, y mapiau gwych... Roedd derbyn y llyfr gorffenedig yn brofiad gwefreiddiol a bythgofiadwy. Gwelais lyfr hyfryd yn ogystal â breuddwyd wedi ei gwireddu mewn

bocs cardfwrdd ar ford y gegin!

Gol. Cafodd y llyfr ei ddewis fel "llyfr y mis i blant" mis Hydref gan y Cyngor Llyfrau. Llongyfarchiadau Elin!

Caerffili yn ei Blodau



Dyma grŵp 'Caerffili yn ei Blodau' a ddaeth i'r Twyn ddydd Sadwrn y 18fed o Fedi i nodi'r holl wobrau a enillodd Caerffili am ei Blodau ar y 10fed. Er gwaetha anawsterau'r Cofid yn ystod y 18 mis blaenorol, enillodd Caerffili'r brif wobwr eto. Tra mai Cyngor Tref Caerffili sydd yn trefnu ac ariannu'r brif arddangosfa ganol y dref, mae'r cais yn cynnwys gwaith nifer o grwpiau a busnesau.

Dyweddodd y Cyngorydd James Fussell sy'n cydlynu ymdrech Caerffili bob blwyddyn: "Mae'n bwysig dweud diolch i chi i gyd am y gwaith caled a'r ymroddiad mae grwpiau cymunedol a busnesau wedi dangos i'r digwyddiad, drostynt eu hunain ac fel rhan o 'Caerffili yn ei Blodau' cyflawn .

"Mynychodd Simon Beacham a finnu'r dyfarniadau ym Miwmares ac, fel y cytunwyd, derbyniom y tystysgrifau ar ran grwpiau lleol, a rhaid ein bod wedi cerdded sawl milltir gan fod cymaint wedi'u cyflwyno."

Enillodd Tref Caerffili'r wobwr gyntaf yng nghategori Canol Tref a Dinas gan wthio Penarth i'r ail safle.

Yng nghategori "Eich Cymdogaeth Chi" aeth y dyfarniad uchaf AUR i Ffrindiau Rhandiroedd Cymunedol Parc Morgan Jones gan gyrraedd "Lefel 5 Eithriadol" gyda dyfarniad ychwanegol personol, "Dyfarniad Coffa Norman Stewart", yn mynd i Elizabeth Thomas.

Aeth "Lefel 4 Ffynnu" i Grŵp Cymunedol Trem y Castell a Grŵp Garddio Sant Martin. Soniwyd am Ganolfan y Glöwyr, Tŷ Siriol, Cwrt y Castell a CHADW, gyda sylwadau cadarnhaol i Adran Parciau'r Cyngor Bwrdeistref am y gwelyau blodau cynaliadwy yn Heol y Cilgant.

Hoffai Grŵp Cymunedol Trem y Castell ychwanegu, wrth dderbyn eu tystysgrif gan RHS: "Diolch i bawb, mawr a bach, a anogodd ac a gyfrannodd i ymdrechion eleni. Hefyd y blodau gwyllt, lles cymdeithasol a bioamrywiaeth drwy ychwanegu seddi a Gardd y Pili Pala. Diolch i haelioni'r gymuned a theuluoedd am godi arian ar gyfer y meinciau er cof am rai y buom yn eu caru i ni i gyd gael eu mwynhau.

Dyweddodd Jim Goodwin, beirniad Cymru yn ei Blodau: "Dangosoch ymrwymiad cymunedol da yn eich cais, ond efallai bod galw am ychydig mwy o gydlyn. Mae cefnogaeth ariannol a noddwyr i'w gweld yn dod ond byddai'n werth cael gwybod am yr hyn sydd yn eich rhaglen drwy'r flwyddyn. Daliwch ati i wella a bydd y fedal aur o fewn eich gafael."

Ffermdy ac Ysgol

Philip Lloyd



Gilfach Fargod Fawr, 1957. Llun gan Philip Lloyd

Diolch i'r Dr Elin Jones am roi inni hanes Gilfach Fargod Fawr yn rhifyn mis Medi o Cwmni. Hwnnw oedd y tŷ hynafol y byddwn yn cerdded heibio iddo o'm cartref yn Alfred Street i Ysgol Ramadeg Bargod. Safai'r ysgol ym mhen uchaf Park Crescent (dyna enw rhyfedd ar stryd unionsyth o un pen i'r llall!). Cyn iddi gael ei dymchwel i wneud lle i dai newydd, yno oedd ysgol uchaf Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Roedd yn wir ddrwg gennyf glywed am gyflwr truenus tŷ a oedd yn gysylltiedig â dechreuadau addysg yn y cylch, fel y clywsom gan y Dr Elin. Pan dynnais lun ohono yn y 1950au roedd yn llaethdy i wŷr

busnes lleol, ond dwn i ddim pam bod yr ôl-gerbyd o flaen y drysau dwbl wedi'i lwytho â sachau. Mae'r polyn teligraff a'r polyn lamp ar y dde yn dangos imi dynnu'r llun o gryn uchder – o lawr uchaf y Stiwt, lle byddwn yn cael benthg llyfrau cyn bod sôn am lyfrgelloedd cyngor sir. Mewn un stafell fawr roedd tua deg o fyrdau biliards ond dim ond un bwrdd snwcer (ymhell cyn i'r gamp ddod yn boblogaidd ar y teledu yn nyddiau cewri fel Terry Griffiths a Ray Reardon).

Sawt ma'r ardd yn edrych?


O mawredd!

Yn fy mhrofiad i, does dim dal sut aiff pethau unwaith i chi blannu planhigion. Rwy'n edmygu'r garddwyr crefftus a phrofiadol sy'n medru rhagweld golwg eu gerddi ymhen fis neu ddau. Mae'r rhesi twt o fresych a ffa sydd i'w gweld yn y rhandiroedd ger yr eglwys yn Ystrad Mynach yn destun edmygedd i fi. Sut yn y byd maen nhw'n sicrhau bod pob planhigyn tua'r un maint a siâp?

Arbrawf yw pob dim i fi, beth bynnag, ac weithiau rwy'n edrych yn syn ar yr hyn sy'n tyfu yn yr ardd. A dyna beth rwy wedi bod yn ei wneud ers rhai wythnosau nawr. Am ryw reswm dyw'r pys pêr heb lwyddo cystal eleni – ond mae'r planhigion bach o gêl a blannais yn dyner ac yn y ofalus wedi tyfu'n fforest o flaen fy llygaid. Rwy wedi tyfu cêl sawl gwaith dros y blynyddoedd, ond erioed wedi ei weld yn cyrraedd y maint hwn o'r blaen!


Mae'n amlwg bod y cêl yn hoff o'i le, ac efallai bydd rhai ohonoch yn meddwl iddo dagu'r pys pêr a sugno'r maeth o'r pridd. Ond roedd y pys pêr yn dila iawn o'r cychwyn, ymhell cyn i fi arbrofi trwy blannu'r cêl o'u blaen. Efallai 'mod i wedi plannu pys pêr yn yr un lle yn yr ardd am gyfnod rhy hir? Efallai bod rhywbeth yng ngwreiddiau'r pys sy'n hwb i dyfiant y cêl? Efallai bod un o'r garddwyr profiadol a chraff sy'n darllen y papur hwn yn medru cynnig esboniad?

Ac efallai bod ryseitiai gan rai eraill er mwyn i fi lwyddo i fwyta'r holl gynhaeaf sydd o 'mlaen! Fel arall rwy'n rhagweld y byddaf yn bwyta cêl o nawr tan y Nadolig. Er y byddaf yn iach i ryfeddu, oherwydd dyma un o'r llysiau cyfoethocaf ei faeth, eto i gyd dyw'r syniad o fwyta *cymaint* o gêl ddim yn apelio ataf ryw lawer...



MERCHED Y WAWR CWM RHYMNI

Rhaglen 2021-22



Dyddiad

Digwyddiad

Dydd Mercher, 15 Medi 2021

13:00

Taith ddiwylliannol trwy Rymni,

Arweinir gan Elin Jones

Dydd Mercher, 20 Hydref 2021

13.00 Cwrdd Gardd Hillcrest, Cefn Fforest

Crwydro'r ardd a the prynhawn. £12 y pen
- hanner y pris i elusennau'r NGS

Dydd Mercher, 17 Tachwedd 2021

19.00 Zoom

Judith Griffiths : Cyflwyniad ar ei
hymweliadau â Nova Scotia, Canada

Dydd Mercher, 15 Rhagfyr 2021

19.00 Zoom

Rhiain Bebb : Cyflwyniad cerddorol ar y
delyn deires

Dydd Mercher, 19 Ionawr 2022

14.00 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol;

15.00 Anwen Hill Zoom

14.00 CCB;

15.00 Cyflwyniad Anwen ar ei
ymweliad â Korea a Vietnam

Dydd Mercher, 16 Chwefror 2022

19.00 Zoom

Cathryn Charnell White, Pennaeth y
Gymraeg ag Astudiaethau Celtaidd,
Prifysgol Aberystwyth a Chyfarwyddwr
Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru

Dydd Mercher, 16 Mawrth 2022

11.00 cwrdd tu fas Gwesty'r Arth, y Bontfaen

11.00 Ymweliad â'r Ardd Ffiseg a'r
siopau; 13.30 Cinio Gŵyl Dewi

Dydd Mercher, 20 Ebrill 2022

19.00 Zoom

Jên Dafis, Swyddog Datblygu Rhan-
barth y De-Ddwyrain a De Powys yn
siarad am ei gwaith

Dydd Mercher, 18 Mai 2022

13.00 Cwrdd Caffi Tŷ Bedwellte

Ymweliad â Thŷ a Pharc Bedwellte,
Tredegar; lluniaeth yno neu Caffi

Dydd Mercher, 15 Mehefin 2022

Trip diwrnod

Ymweliad â Gerddi Dyffryn

Dydd Mercher, 20 Gorffennaf 2022

Trip diwrnod

Ymweliad â Chastell a Pharc
Cyfarthfa. Bwyd : Nantddu Lodge

Rheilffyrdd Cwm Sirhywi

Malcolm David

Ym 1797 prydlesodd Samuel Homfray dir ym Medwellte, Tredegar, o stad Tredegar yng Nghasnewydd. Ac mewn partneriaeth â Richard Fothergill a Mathew Monkhouse adeiladodd ffwrnais yno, â'i henwi'n Waith Haearn Sirhywi. Ym 1800, fe wnaethant ei hailenwi'n Gwmni Haearn Tredegar, er anrhydedd i ystad Tredegar y gwnaethant brydlesu'r tir ohoni.

Roedd rhaid iddynt gludo'r haearn o'u gwaith i lawr y Cwm i Gasnewydd. Felly, ym 1805 fe wnaethant agor tramffordd mor belled â'r pwynt naw milltir o Gasnewydd i gysylltu â thramffordd Cwmni Camlas Sir Fynwy. Roedd y cwmni eisoes yn rhedeg tramffordd oddi yno i Gasnewydd, felly roedd Cwmni Haearn Tredegar yn gweithredu 15 milltir o'r dramffordd cyn belled â'r pwynt naw milltir o Gasnewydd. Rhan o Gwmfelfinch ydy'r pwynt naw milltir.

Roedd gan Gwmni Camlas Sir Fynwy ganiatâd i weithredu tramffordd hyd at 8 milltir o'u camlas. Felly roedd eu tramffordd yn rhedeg am 8 milltir o'r pwynt naw milltir i gyrraedd Casnewydd. Ac roedd Sir Charles Morgan yn gweithredu'r filltir olaf, a oedd yn rhedeg trwy ei dir ym Mharc Tredegar. Fe'i galwyd yn filltir euraidd, oherwydd derbyniodd daliadau am bob tunnelli o haearn a glo a groesodd ei dir.



Pont hir Rihsga

Trac dwbl oedd y naw milltir cyntaf o Gasnewydd, ond roedd y bymtheg milltir oddi yno i Dredegar yn drac sengl. Felly, roedd rhaid codi wagenni gwag oedd yn mynd lan y cwm oddi ar y trac. Gwnaed hynny er mwyn i'r rhai llawn oedd yn dod i lawr basio, ond yn y diwedd fe wnaethant gyflwyno lleoedd pasio i'r trac. Cymerai trwy'r dydd i dîm o bedwar neu bum ceffyl dynnu pymtheg wagen, pob un yn cario tua dwy dunnell, am y pedair milltir ar hugain i Gasnewydd. Roedd y lein yn mynd drwy ganol ambell bentref. Yna, ar draws y bont hir yn Rhisga a oedd yn ymestyn ar draws y cwm ac yn cynnwys tri deg dau bwa.

Ceffylau dynnodd yr holl draffig tan 1829 pan gyflwynodd Samuel Homfray locomotif stêm o'r enw Britannia ar brawf. Er i'r trênn gymryd trwy'r dydd i gyrraedd Casnewydd roedd yr arbrawf yn llwyddiannus. Ond cafodd y trênn nifer o broblemau ar ei daith i Gasnewydd, yn bennaf oherwydd y pwysau yn torri nifer o *dram plates*. Ar ôl cyrraedd Parc Tredegar ar filltir olaf ei daith cafodd ei simnai ei fwrw i ffwrdd gan gangen coeden a oedd yn crogi dros y trac. Ond yn y diwedd fe gyrhaeddodd ddiwedd ei daith. Serch hynny wedi'r holl drafferthion ar y daith gyntaf, fe wnaeth e'r daith bob dydd, yn cario 50 i 60 tunnelli.

Erbyn 1845 roedd Cwmni Camlas Sir Fynwy wedi newid ei enw i Gwmni Rheilffordd a Chamlas Sir Fynwy.

Erbyn diwedd 1855 roedd system Sir Fynwy wedi newid i fod yn rheilffordd mesur safonol a weithiwyd gan locomotif. Ym 1860 newidiodd tramffordd Sirhywi ei henw i'r *Sirhowy Railway Company* a newid i fod yn rheilffordd mesur safonol hefyd.



Prif stryd Argoed yn dangos y rheilffordd

Tua 1865 agorodd y lein ar gyfer cludo teithwyr; gallai'r trên fynd nawr yn syth i Gasnewydd heb i deithwyr orfod newid trenau yn y pwynt naw milltir. Roedd tri thrên y dydd yn ystod yr wythnos, a dau ar ddydd Sul. Taith yn cymryd awr ac ugain munud. Eitha gwelliant i'r daith gyntaf ym 1829.

Ar ôl gadael Tredegar tua 3 milltir i lawr y Cwm roedd y rheilffordd yn mynd drwy Lwyncelyn a heibio tafarn yr Ancient Druid lle ar un adeg roedd Evan James yn dafarnwr a lle ganwyd ei fab James ym 1832. Symudon nhw i Bontypridd pan roedd James yn ifanc. Yno cyfansoddodd James y gerddoriaeth â'i dad y geiriau i gân o'r enw Glan Rhondda a ddaeth yn y pen draw yn Anthem Genedlaethol Cymru, Hen Wlad fy Nhadau.



Melin Gelligroes

Ychydig ymhellach i lawr y Cwm aeth y lein drwy Argoed lle cafodd Zephaniah Williams, un o arweinwyr y Siartwyr, ei eni, i lawr drwy'r Coed Duon a Phontllanfraith. Ddim yn bell i ffwrdd o'r lein ar y chwith mae Melin Gelli-groes. Yno, yn oriau mân y 15fed o Ebrill 1912, cododd Arthur Moore, a oedd yn byw yn y felin, y signal am drallod y Titanic.

Y pentre' nesa lawr y cwm ydy Ynysddu lle ar y 3ydd o Ebrill 1832 cafodd William Thomas ei eni. Cymerodd ei enw barddol o'r mynydd uwchben y pentre. Blyneddoddd yn ddiweddarach daeth e'n weinidog gyda'r Methodistiaidd Calfinaidd. Mae e'n fwy adnabyddus fel

Islwyn y bardd. Y pentre' nesa ydy Cwmfelinfach, lle'r oedd e'n pregethu'n aml iawn yng Nghapel y Babell. Bu farw Islwyn ar yr 20fed Tachwedd 1878 ac fe'i claddwyd yng Nghapel Babell.

Rhwng 1902 a 1905 suddwyd dwy siafft yn y pwll glo newydd, Coronation Colliery; ailenwyd e'n ddiweddarach yn Nine Mile Point, neu fel mae pobl leol yn arfer ei alw, "The Point". Galwyd ef yn Nine Mile Point oherwydd roedd hyn mor belled a chafodd Cwmni Camlas Sir Fynwy ganiatâd i weithredu.

Ym 1929 fe ddechreuodd terfysgoedd gyda glowyr a phentrefwyr yn cymryd rhan. Cymerodd sawl diwrnod i'r heddlu ailsefydlu rheolaeth. Achos y terfysg oedd y ffaith fod y cwmni yn cyflogi bradwyr yn y Pwll. Digwyddodd streic ym 1929 a 1935 yn y pwll glo Nine Mile Point yng Nghwmfelinfach; ymgyrchodd mwy na 700 o bentrefwyr a glowyr yn y streic ym 1929.

Yn ystod streic 1935 arhosodd 164 o lowyr dan ddaear am 177 awr, y streic gyntaf gydag arhosiad dan ddaear yng Nghymru. Achos y streic oedd yr un broblem, h.y. roedd y cwmni yn cyflogi 'scabs', sef bradwyr, yn y pwll. O'r pwynt naw milltir aeth y lein i lawr i Risga dros y bont hir, heibio i dafarn y Welsh Oak lle arhosodd y Siartwyr ar eu ffordd i Gasnewydd ym 1839. Yna, drwy filltir euraidd y Morgans ac ar ôl hynny wrth gyrraedd diwedd eu taith.

Mae rhan fawr o daith gerdded Cwm Sirhywi ar hyd hen reilffordd Sirhywi, ac mae'n boblogaidd iawn yn enwedig yr adran 'Lleud Lawn' rhwng Wattsville a Wyllie, h.y. Full Moon sy ar ben isaf Parc Gwledig Cwm Sirhywi yn Wattsville. Mae yna safle amwynder dinesig yno; mae'n dechrau yn syth o'r cylchfan Full Moon ar yr A467 a hefyd yr adran rhwng Coed Duon a Llwynceilyn.



Capel y Babell



Cerfiadau pren ar yr hen reilffordd ger Llwynceilyn

Canmlwyddiant Etholiad Morgan Jones



Mae parc hardd gennym yng Nghaerffili sydd wedi ei enwi ar ôl Morgan Jones, y dyn fu'n cynrychioli Caerffili yn y Senedd yn San Steffan rhwng 1921 a 1939. Mae cofeb fechan yn y parc sy'n nodi ei enw a'r swyddi o gyfrifoldeb fu ganddo. Ond tan y ddiweddard doedd dim manylion pellach am hanes y dyn arbennig hwn.



Mae Cymdeithas Hanes Gelligaer yn dathlu ei hanner canmlwyddiant eleni, sef canmlwyddiant ethol Morgan Jones i'r Senedd. Penderfynodd rhai o swyddogion y gymdeithas y dylid sicrhau bod bwrdd gwybodaeth yn olrhain hanes bywyd Morgan Jones yn cael ei godi yn y parc yng Nghaerffili, ac un hefyd yn y parc yn y Bargod. Mae'r parc yno yn agos at ei gartref yn yr etholaeth.

Mae stori Morgan Jones yn gyfarwydd i ddarlennwyr y papur hwn, wrth gwrs. Byddwch yn

cofio'r erthyglau yn gynharach eleni am yr athro ifanc a garcharwyd oherwydd ei wrthwynebiad i'r Rhyfel Byd Cyntaf, ac a gollodd ei swydd fel athro oherwydd hynny. Bu'n rhaid iddo fynd i weithio dan ddaear, ond cafodd ei ethol i'r Cyngor Sir ac yna i'r Senedd. Bu'n gweithio'n ddiflino ar hyd ei oes i wella bywyd trigolion ei etholaeth. Braf yw nodi bydd yr hanes hwn ar gael nawr i bawb sy'n ymweld â'n parciau.

Daeth rhai o aelodau Cymdeithas Hanes Gelligaer, rhai o'r cynghorwyr lleol a swyddogion y Cyngor ynghyd ym mharc Morgan Jones ar Awst 24^{ain} i weld Aelod Seneddol presennol Caerffili, Wayne David, yn dadorchuddio bwrdd gwybodaeth ger y gofeb wreiddiol. Cafwyd anerchiad byr ond pwrpasol iawn gan Mr David. Fe yw awdur *Morgan Jones: Man of Conscience*, hanes bywyd ei ragflaenydd fel AS Caerffili, a'r llyfr hwnnw yw sail yr adroddiad sydd ar y byrddau gwybodaeth.

Gobeithio'n wir y bydd y byrddau gwybodaeth hyn yn gyfrwng i godi ymwybyddiaeth o ddyn fu'n byw ei egwyddorion, ac yn haeddu cael ei gofio gennym.





Lluniau Gareth Hughes



Brodor o Fangor ydi Gareth Hughes. Ar ôl gadael Ysgol y Friars yn 1959 fe ddechreuodd yrfa fel prentis argraffwr ond yn fuan newidiodd i fod yn newyddiadurwr yn gweithio i bapur Cymraeg Sir Fôn “Y Cloriannydd” a hefyd y “North Wales Chronicle.” Yn y man fe aeth i Goleg Harlech ac wedyn i'r LSE i ddarllen gwleidyddiaeth ac economeg. Ar ôl graddio fe aeth yn ddarlithydd i Brifysgol Nottingham ac yn 1970 yn bennaeth adran ymchwil i'r National Council of Social Services. Cafodd swydd dros dro yn Den Haag yn gweithio i fudiad rhyngwladol a hefyd yn gweithio dros dro a gwneud ymchwil i lywodraeth Gorllewin yr Almaen ar y pryd.

Daeth yn ôl i Brydain i weithio i Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yn Lloegr ac wedyn dod yn ôl i Gymru i sefydlu'r mudiad Cymdeithasau Tai yng Nghymru, lle y bu tan iddo fynd yn ôl fel newyddiadurwr i ITV yn eu hadran wleidyddol. Ar ôl 6 mlynedd fe aeth yn llawrydd ac fe wnaeth ambell i raglen ddogfen i'r BBC a hefyd gweithio i Golwg am ddwy flynedd ac Y Cymro fel colofnydd, cyn penderfynu ymddeol eleni i ganolbwyntio ar arlunio.

Sawl Maen sydd mewn Cylch?



Ar yr olwg gyntaf, mae'r cwestiwn uchod i'w weld yr un mor ddi-synnwyr â hwnnw am hyd darn o llyn. Ond o feddwl amdano mewn perthynas â'r cylch o feini ym Mharc David Williams, Caerffili, daw ei ystyr yn glir, gobeithio. Fel y gŵyr darllenwyr *Cwmni*, codwyd y meini – deuddeg ohonyn nhw – ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 1950. Roeddwn i yno yn ystod un o'r seremonïau boreuol, ac mae gen i gof da o'r Archdderwydd Wil Ifan yn llywio gweithgareddau Gorsedd y Beirdd o'r Maen Llog.

Ai dyna ateb y cwestiwn ar ei ben? Nage, a bod yn fanwl-gywir. Mae'r cylch yn dal i sefyll, ac mae'r llun a dynnwyd ohono'n ddiweddar yn dangos bod dau faen arall yn sefyll y tu allan tua'r dwyrain (eu rhifo: 1 a 2). Beth oedd eu diben? Ceir yr ateb yn rhannol yn adroddiad y chwaterolyn *The Cambrian Journal* am Eisteddfod Fawr Llangollen 1858. Roedd ynddo ddisgrifiad o'r cylch a godwyd ar ei chyfer – deuddeg o feini yn sefyll ar eu pennau i gynrychioli symbolau'r Sodiad, gyda'r Maen Llog yn y canol (yn union fel sydd yng Nghaerffili).


Heuldro a Chyhydnos

Ond y tu allan i'r cylch a thua'r dwyrain roedd tri maen ychwanegol, mewn safleodd a olygai fod llinellau dychmygol o'r Maen Llog at bob un yn anelu am godiad yr haul ar adegau neilltuol o'r flwyddyn: Heuldro'r Gaeaf, tua 21ain Rhagfyr (pan fydd y dydd yn hemisffêr y gogledd ar ei ffrwydd); Heuldro'r Haf, tua 21ain Mehefin (pan fydd ar ei hwyaf); a'r ddau gyhydnos, sef Cyhydnos y Gwanwyn, tua'r 20fed o Fawrth a Chyhydnos yr Hydref, tua 22ain o Fedi (pan fydd y dydd a'r nos yr un hyd ymhobman). Ar Heuldro'r Gaeaf byddai'r haul yn codi y tu ôl i'r maen mwyaf deheuol o'r tri. Ar Heuldro'r Haf: y tu ôl i'r un mwyaf gogleddol. Ac ar y ddwy gyhydnos: y tu ôl i'r un canol.

Er na ddechreuodd y dilyniant blynyddol o eisteddfodau cenedlaethol tan un Aberdâr yn 1861, mae lle anrhydeddus i wyl 1858 am resymau amgenach na Chylch yr Orsedd. Honnodd y *Cambrian Journal* iddi fod '*on a scale worthy of a national event*'; ymddangosodd aelodau'r Orsedd mewn gwisgoedd gwyn, glas a gwyrdd; traddodwyd y weddi 'Dyro, Dduw, dy nawdd ...'; gweiniwyd llafn y cledd ar y Maen Llog (yn hytrach nag yn nwylo cyhyrog Robin McBride neu'r diweddar Grav) a chyflwynwyd Cadair yn wobwr am awdl (y pwnc oedd Brwydr Bosworth, '*by which the Cymry recovered the monarchy of the Isles of Britain*').

Eisteddfodau 1904 a 1923

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Rhyl yn 1904. Gwelir yn y sgets o'r rhaglen swyddogol fod tri maen yn sefyll y tu allan i'r cylch a godwyd ar y twyni tywod bron hanner cant o flynyddoedd ar ôl Eisteddfod Fawr Llangollen. Dau sydd y tu allan i gylch Eisteddfod Yr Wyddgrug 1923 o fewn taflad carreg i'n cartref ni. Fel yng Nghaerffili, felly, ai dyma ymgais i led-barchu traddodiad sy'n dyddio o leiaf o ganol yr 19fed ganrif?



ON: Roedd Cyhydnos yr Hydref ar ddydd Iau, 23 Medi yn 1858, ynghanol eisteddfod a barhaodd am bedwar diwrnod. Ond does dim sôn yn y *Cambrian Journal* am neb oedd yn gysylltiedig â'r wyl ar eu traed yn ddigon cynnar i wylïo'r haul yn codi y diwrnod hwnnw! Alban Elfed yw'r enw traddodiadol Cymraeg ar y cyhydnos hwnnw.

Philip Lloyd

Merched y Wawr yn Rhymni



Does dim byd yn brafiach na haul haf bach Mihangel, na lle mwy difyr na Rhymni i ymweld ag e!
Dyna oedd barn aelodau Merched y Wawr ar ddiwedd eu taith o gwmpas yr hen dref ar Fedi
15^{fed}.

Cwrddon ni ger yr orsaf, gan fod rhai wedi mwynhau taith ar y trên trwy harddwch diwedd haf ar ein cwm, gan ymgasglu ar y bont uwchben yr hen afon, sydd wedi gweld “sawl tro ar fyd”. Nid yw hi heddiw'r afon ddu roedd nifer ohonom yn ei chofio.

Cerddon ni heibio olion hen swyddfeydd Cwmni Haearn Rhymni, ei fragdy a'i siop, ac elwon ni ar atgofion un o'r aelodau gafodd ei geni a'i magu yn y dref. Magodd Dilys Williams ei theulu ei hun wedyn yn nhref ei mebyd, a bu'n dysgu yn Ysgol Gymraeg y Lawnt hefyd. Mae'n cofio sut oedd bywyd Rhymni flynyddoedd yn ôl, ac yn cofio hefyd yr ymgyrchu a fu dros sefydlu'r ysgol Gymraeg.



Roedd ei hatgofion hi, a rhai yr aelodau eraill fu hefyd yn dysgu yn Ysgol y Lawnt, yn cyfoethogi'n taith o gwmpas y dre. Aethon ni i'r Llyfrgell i weld yr arddangosfa yno o weithiau'r bardd Idris Davies. Mawr yw'n diolch i staff y Llyfrgell am hwyluso'n hymweliad ar adeg mor anodd iddynt oherwydd cyfyngiadau Covid. Mae'r Llyfrgell yn agos at y tŷ lle bu farw'r bardd, ac mae plac yn coffáu “un o feibion anwylaf y dre”. Fe gofion ni am ei ymdrechion diflino i sefydlu ysgol Gymraeg yn Rhymni.

Ymlaen â ni wedyn ar hyd yr High Street, gan sylwi ar adeiladwaith solet rhai o'r hen dai - a'r siopau gwag fu unwaith mor brysur. Yn y stryd hon roedd nifer o feirdd o siopwyr yn byw ac yn cadw busnes hefyd, ac yno, yn rhif 100, ganed y Dr Thomas Jones, ysgrifennydd i Lloyd George ac wedyn i ddau o brif weinidogion eraill Prydain. Fe oedd sylfaenydd Coleg Harlech - a

thalon ni deyrnged i'r sefydliad hwnnw, ac i Addysg Oedolion Cymru, sy'n parhau'r gwaith a ddechreuodd e.

Ond roedd yn rhaid i ni ymweld â Chae'r Eisteddfod! Er yr holl newid sydd wedi bod yn Rhymni dros y blynyddoedd, mae'r cae wedi cadw ei enw Cymraeg, ac yn dal yn llecyn agored gwyrdd yng nghanol y tai. Yno byddai'r eisteddfodau'n cael eu cynnal yn nyddiau bri diwydiant Rhymni, a'i diwylliant Cymraeg hefyd - ac yno, mewn oes ddiweddarach, y byddai'r ysgol Gymraeg yn cynnal ei mabolgampau. Roedd seiniau'r Gymraeg yn siŵr o lonni calonnau'r hen feirdd sydd yn gorwedd ym mynwent Eglwys Dewi Sant gerllaw.

Ymlaen â ni wedyn heibio'r eglwys fawr honno, gan sylwi ar olwg drist lle arall a fu mor brysur yn ei ddydd, a heibio capel mawr Penuel, sydd hefyd yn tystio i ddyddiau gwell. Bu nifer o gapeli Cymraeg yn Rhymni: erbyn heddiw cnewyllyn o ffyddloniaid y capeli hyn i gyd sydd yn cadw dyletswydd yn hen festri Penuel.

Cerdded lawr y rhiw wedyn, ac ar hyd Lôn y Bragdy. Clywsom ni am bartïon 'slawer dydd yn un o'r adeiladau yno a drowyd yn glwb nos, ac am ddathliadau yn adeilad hynafol y Seiri Rhyddion. Cawsom ddisgrifiadau byw o ddawnsio gwerin ar y lawnt o flaen hwnnw!

Roedden ni'n cyflymu'n camau nawr wrth agosáu at yr orsaf, ond nid cyn edmygu'r rhes hardd o dai - Y Teras - a godwyd ar gyfer swyddogion Cwmni Haearn Rhymni. Lle braf i fyw o hyd, ac yn llawn o'r hanes sydd i'w ganfod ym mhob modfedd o'r hen dref. Dim ond un cornel bach o Rymni a welsom ni - ac edrychwn ymlaen at daith arall i'r gorffennol yno!

Cwrs loga a Meddwlgarwch

gyda Tara Bethan



Dechrau Hydref 4ydd

9:30

Bore Gwener

@ Zoom

Dewch i ymlacio yr ymenydd a'r corff.
6 sesiwn wythnosol loga a meddwlgarwch
gyda Tara Bethan.

£30 am y 6 sesiwn

i archebu lle ac i dderbyn manylion talu::
bethanjones@mentercaerffili.cymru



Gwersi Trefnu Blodau

i oedolion



Bob pythefnos o dan
arweiniad Ann Mears

£6

Dechrau Dydd Llun

Hydref 4ydd

6:00yp

Festri Capel Bethel, Caerffili

Cysylltwch am fanylion pellach:
bethanjones@mentercaerffili.cymru



Colofn Dafydd Islwyn

Cofio Val Hookway

Noson gofiadwy oedd nos Lun, 24ain o Fedi 1973, noson gynta' tymor 1973-74 Cymdeithas Gymraeg Caerffili yn festri hen Gapel Bethel y dre. Gwrandawyd ar y Parchedig D. Jacob Davies (1916-74), Allt y Blaca, Ceredigion, yn darlithio. Yn dilyn y ddarlith anogodd y Dr Meredydd Evans (1919-2015) aelodau'r Gymdeithas i sefydlu Dosbarth Nos yn y dre. Yn gynharach yn y flwyddyn roedd Merêd wedi cael ei benodi'n ddarlithydd yn Adran Gymraeg Efrydai Allanol, Prifysgol Cymru, Caerdydd. Ymhen tair wythnos roedd y dosbarth yn eistedd wrth draed Merêd yn festri Bethel. Yn ystod ei dymor cyntaf bu Trefor Owen, Sain Ffagan; T.Gwyn Jones, Cyncoed, Caerdydd, a John Gwynfor Jones, yr hanesydd o'r brifysgol yn darlithio i'r dosbarth. Erbyn i'r tymor ddod i ben, 26ain o Fawrth 1974 roedd y cyfarfod yng Nghanolfan yr Athrawon, Mill Road, Caerffili.



Yno, y cyfarfu ar y 30ain o Fedi 1974 a bu agor ei ail dymor, a'r ddarlithydd oedd W. J. Jones - ddarlithydd yn Adran Gymraeg, Coleg Cyncoed, Caerdydd. Bu ef yn cadw'r dosbarth tan 24ain o Fawrth 1997. Am flynyddoedd, testun y ddarlithoedd oedd Cyfansoddiadau a Beirniadaethau y Genedlaethol.

Ar y 25ain o Fedi 1989, agorodd tymor 16 ac roedd un o hoelion wyth y dosbarth yn absennol, Mrs Eleanor Richards, Lluest Wen, Hillside, Caerffili. Bu hi farw ddiwedd Mawrth 1990. Hoelen wyth arall oedd Orthian Thomas, 29 Standard Street, Tretomos. Roedd ffyddlondeb y ddau yn ddjarhebol a'u sylwadau safonol yn werth gwrandao arnynt. Cyhoeddwyd ysgrif goffa Orthian gan T. J. Davies yn ei gyfrol Gwarlingo, 1986. Bu T. J. Davies yn ei angladd ym mynwent Sant Barrwg, Bedwas. "Hebrwng yr oedden un arbennig. Heddychwyr a Thrysorydd Cymdeithas y Cymod yng Nghymru am flynyddoedd. Fe ddarllenodd lawer ar lenyddiaeth y Crynwyr....."

Bûm yn darllen yn ddiweddar restrai aelodau Dosbarth W. J. ac arnynt mae un enw yn ymddangos yn rheolaidd. Ar restr 22ain o Fedi 1975 ceir enw Valerie A. Hookway, 7 Lôn Fach, Caerffili, ac mae ei henw ar un nos Lun, y 9fed o Ionawr 1995. Bu hi y tu hwnt o ffyddlon i'r dosbarth tan ymddeoliad W. J. Gwraig dawel urddasol oedd hi ac anodd oedd credu mai wedi dysgu'r iaith oedd hi. Nid oedd yn ei natur i dynnu sylw ati ei hun. Credai os addo, gweithredu. Nid addewid mewn diod oedd ei gair hi.

Pan ddarllenais am farwolaeth Val ar y 10fed o Fai eleni, cofiais am englyn y prifardd Emrys Roberts, yr Archdderwydd pan gyhoeddwyd y Genedlaethol, Cwm Rhymni, ym Mharc Bargod ddechrau ha' 1989, i'r "Dysgwyr".

Nid cnafon rhyw estron iaith – yw'r dysgwyr
Eu mawr dasg sy'n gampwaith,
Y rhain rydd hwb i'r heniaith
Gwario'u hoes i ddysgu iaith.

Englyn yn Ymryson y Beirdd, Bro Dwyfor 1975 ar ran Powys; englyn a gurodd un Dic Jones ar ran Dyfed. Mwy rhamantus ydy englyn y Prifardd Idris Reynolds.

Dysgwr
Mewn gardd a fu yn harddach – a'i lliwiau
yn llawn tanbeitiach
Y mae rhosynnau mwyach
Yn bywhau y border bach.

Colofn y Dysgwyr

Rydyn ni'n clywed llawer am helpu'r amgylchedd y dyddiau yma ac am ddefnyddio ynni adnewyddadwy. Mae llawer o felinau gwynt yng Nghymru, ond beth ydy eich barn chi amdany'n nhw? Ydyn nhw'n cynhyrchu ynni glan a rhad, neu ydyn nhw'n bethau salw sy'n difetha golygfeydd hardd.

Dydy bardd cerdd y mis yma, Lynn Phillips, ddim yn hoffi'r melinau gwynt ond mae'n eu disgrifio nhw mewn ffordd ddiddorol iawn yn defnyddio llawer o drosiadau. Pa drosiad ydych chi'n meddwl yw'r gorau? Pam Don Quixote?

Melinau

Neb yn gwylio
Neb yn gwrando,
Distaw y daethant
annisgwyl –
Dros ben y bryn.

Heb siw na miw,
Dim adar yn canu,
Na chwingod yn chwarae ,
Na defaid yn pori
Ar lan yr afon.

Y fyddin haearn yn teyrnasu,
Brenhinoedd y bryn yn sathru'r caeau
Dan draed
Dideimlad, diysbryd,
Di-baid.

Breichiau du'n troelli'n lloerig,
Herio'r gwynt a sgrech eu grym,
Gwawr Armagedon,
Marchogion modern
Yn disgwyl eu Don Quixote.

amgylchedd : environment ynni adnewyddadwy : renewable energy cynhyrchu : produce difetha : spoil
golygfeydd : scenery trosiadau : metaphors daethant : they came annisgwyl : unexpected
heb siw na miw : without a sound pori : graze y fyddin haearn : the iron army teyrnasu : reign
sathru : trample dideimlad : without feeling diysbryd : without spirit di-baid : ceaseless
troelli : spin lloerig : insane herio : challenge grym : power gwawr : dawn marchogion : knights

Ann Lewis

Ffraethineb Gwraig y Gweinidog

Nid pob un o ddarlennwyr *Papur Fama* gafodd y pleser o wrando ar 'Idwaldo', sef darlith Emyr Llew yn y Babell Llen eleni am hiwmor y ddau gyfaill Idwal Jones a Waldo Williams. Yn atodol at hanesion dwys a difyr am y ddau yma (ond o ddiddordeb arbennig i bobl ardal Yr Wyddgrug, hwyrach), adroddodd y darlithydd ddwy stori am Jennie Eirian Davies yn sefyll dros Plaid Cymru yn Sir Gaerfyrddin yn etholiad cyffredinol 1955 ac eto yn is-etholiad 1957 pan oedd ei gŵr, y Parchedig J. Eirian Davies, yn weinidog ym Mrynaman. Cynyddodd ei phleidlais o 7.8% yn 1955 i 11.5% yn 1957.

Dyna gyfnod y cyfarfodydd dan-eu-sang mewn tref a phentref, a pheth cymharol ddieithr oedd i wraig fentro i fywyd cyhoeddus. Yn etholiad 1955 cafodd Jennie Eirian ei phlagio gan ffermwr a'i dilynodd o gyfarfod i gyfarfod gan geisio tansellio ei hyder a'i hygrededd mewn etholaeth lle roedd amaethyddiaeth yn gryf, drwy ofyn iddi yn herfeiddiol dro ar ôl tro: 'Sawl rib sy' 'da mochyn?'.

Ond mentrodd y ffermwr unwaith yn ormod. Fe'i lloriwyd unwaith ac am byth yn y diwedd gan ateb yr ymgeisydd ffraeth: 'Dere 'ma, imi gael eu cownto nhw'. Roedd gan Jennie Eirian fab bychan ar y pryd, a phan ofynnodd rhywun sut byddai arno pe bai hi'n ennill, ei hateb oedd: 'Gall Syr Rhys Hopkin Morris [yr AS Rhyddfrydol roedd hi'n sefyll yn ei erbyn] ofalu amdano fe'.

Philip Lloyd



Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg

Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol Trefforest CF375YB.

www.twtlol.com

Ar agor: Gwener 09:00 – 18:00 Dydd Sadwrn 12:00 – 16:00

Enillodd Twt Lol yr hawl i nodi'r mesurau ar wydr cwrw YN Y GYMRAEG. Y cwmni cyntaf i wneud hyn!!

Daeth yr hawl i wneud hyn wedi brwydr galed â Swyddogion Prydeinig y Trethi.

Ewch draw i Drefforest i brynu gwydrau – ac i'w llenwi â chwrw Cymraeg braf.

Haplyfr Hapus
LLYFR CYMRAEG AIL-LAW,
AR HAP, BOB MIS
WWW.CANTAMIL.COM

Hoffech chi gael llyfrau Cymraeg ail-law wedi'u dewis i chi?

Ymunwch â Haplyfr Hapus a bydd Cant a mil yn dewis llyfr ail-law i chi bob mis am flwyddyn!

Tanysgrifiad blwyddyn: Trwy'r post £59
Casglu eich hunan £35

Would you like a friend to receive a Welsh language book every month?

Take out a Haplyfr Hapus subscription and Cant a mil will choose a secondhand book for your friend every month for a year!

Annual subscription: By post £59 Collection £35

To join go to www.cantamil.com and search for Haplyfr Hapus

www.cantamil.com

PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Gweplyfr/ Face book: Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

Hysbysebu: Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith

Gwefan: Menter Iaith SirCaerffili.cymru/

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn ôl gofynion golygyddol.



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*